



# Sicrhau, Esbonio, Ysbrydoli

Ein strategaeth 2022-27

# Cyfnod o heriau a chyfleoedd

Ar ôl cyfnod maith o gyni cyllidol a'r ergyd economaidd yn sgil y pandemig, prin fydd y saib yn y blynyddoedd nesaf i gyllid cyhoeddus sydd eisoes wedi'i ymestyn yng Nghymru.

Mae'r pandemig wedi creu heriau enfawr ond wedi dangos cryfderau mawr yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Y cyfle nawr yw adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn gweddnewid y ffordd y darperir gwasanaethau i fynd i'r afael â'r heriau hirhoedlog sydd wedi bod yn flaenllaw ym meddyliau sector cyhoeddus Cymru ers cryn amser.

Er gwaethaf yr oes newidiol sydd ohoni, mae ein diben yn Archwilio Cymru yn parhau'n gyson – i sicrhau pobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda, i esbonio sut mae'r arian hwnnw yn cael ei wario ac i ysbrydoli sector cyhoeddus Cymru i wella.

Dyna pam mae amseriad a phwyslais y strategaeth hon mor bwysig. Trwy ei datblygiad rydym wedi herio ein hunain fel sefydliad, wedi gofyn i eraill graffu arnom ac wedi cael cyfoeth o wybodaeth i'n helpu i nodi cyfeiriad a phwyslais eglur ar gyfer y bum mlynedd nesaf.

Mae llawer o'r heriau sy'n ein hwynebu yng Nghymru heddiw – mewn meysydd fel anghydraddoldeb, iechyd y cyhoedd, a'r argyfwng hinsawdd – yn gymhleth, yn rhyng-gysylltiedig ac yn rhychwantu cylchoedd gwaith amrywiaeth o sefydliadau. Bydd ein pwyslais archwilio yn esblygu i adlewyrchu'r cymhlethdod hwnnw a sut mae gwasanaethau yn trefnu eu hunain i ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu.

Rydym yn bwriadu rhoi mwy o bwyslais ar adrodd thematig, cymariaethau ar draws cyrff a archwilir a nodi a rhannu arfer da. Byddwn yn ymgorffori mwy o hyblygrwydd yn nyluniad a darpariaeth ein rhaglen waith i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn buddsoddi yn ein capasiti a'n gallu o ran gwaith ymchwil a datblygu.

Yr un agwedd fwyaf ar ein gwaith yw cefnogi cyflwyniad barn flynyddol yr Archwilydd Cyffredinol ar ddatganiadau ariannol. Yn y blynyddoedd nesaf, rydym yn bwriadu datblygu amrywiaeth o allbynnau sy'n gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfoeth hwn o wybodaeth.

I wireddu ein gweledigaeth, mae'n hanfodol bod ein gwaith yn cael effaith a bod ein negeseuon yn taro'r nod. Mae hyn yn dibynnu'n fawr ar y cysylltiadau effeithiol sydd gennym gyda'r cyrff yr ydym yn eu harchwilio. Byddwn yn ceisio ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd wrth greu cynhyrchion mwy deniadol, prydlon ac amserol a negeseuon mwy craff a beiddgar hefyd.

Efallai'n bwysicaf oll, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod Archwilio Cymru yn sefydliad enghreifftiol i sector cyhoeddus Cymru, un sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi ein pobl mewn diwylliant sy'n caniatáu i bawb ffynnu. Mae ein hymrwymiad i herio anghydraddoldeb wedi'i wreiddio yn ein gwaith a byddwn bob amser yn herio ein hunain i wneud mwy. Rydym yn falch o fod yn sefydliad dwyieithog ac yn parhau i gynnwys y Gymraeg yn llawn yn ein gweithgareddau.

Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r 'pum dull o weithio' a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn allweddol i'n gwaith. Byddwn hefyd yn achub ar y cyfle i fod yn sefydliad digidol aeddfed a ysgogir gan ddata, gan reoli peryglon seiberddiogelwch yn rhagweithiol.

Fel pob sefydliad sector cyhoeddus, rydym yn wynebu heriau ariannol a byddwn yn mabwysiadu dull strategol i alinio ein sefyllfa ariannol tymor canolig, ein darpariaeth o wasanaethau a chyfansoddiad ein gweithlu.

Mae'r pandemig wedi creu heriau personol a phroffesiynol i bob un ohonom. Rydym yn ddyledus i holl staff Archwilio Cymru ac yn diolch iddynt am eu proffesiynoldeb, eu gwaith caled a'u hymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus drwy'r cyfnod anodd hwn.



---

**Adrian Crompton**

Archwilydd  
Cyffredinol Cymru



---

**Lindsay Foyster**

Cadeirydd Swyddfa  
Archwilio Cymru

# Ein diben a'n gweledigaeth

Mae ein diben yn ganolog i bopeth a wnawn yn Archwilio Cymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd y ffordd yr ydym yn ei gyflawni yn esblygu i adlewyrchu'r heriau sylweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus.

**SICRHAU  
ESBONIO  
YSBRYDOLI**

**Manteisio i'r eithaf ar ein  
safbwynt unigryw, ein  
harbenigedd a thrylwyredd  
ein gwybodaeth**

**Cryfhau ein sefyllfa fel llais  
awdurdodol, annibynnol,  
yr ymddiriedir ynddo**

**Cynyddu ein  
hamlygrwydd, ein  
dylanwad a'n perthnasedd**

**Bod yn sefydliad  
enghreiffiol i'r sector  
cyhoeddus yng  
Nghymru a thu hwnt**

**Rhaglen archwilio  
strategol,  
dynamig, o  
ansawdd uchel**

**Dull wedi'i  
dargedu ac  
effeithiol o  
gyfathrebu a  
dylanwadu**

**Diwylliant a model  
gweithredu sy'n  
caniatáu i ni ffynnu  
yn awr ac yn y  
dyfodol**


# ◀ Tueddiadau sy'n dod i'r amlwg

Bydd ein rhaglen waith yn cael ei llunio gan dri thuedd a nodir yn ein dadansoddiad Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus:



## Byd sy'n newid

- Newid yn yr hinsawdd: sicrhau trawsnewid teg a chyfiawn
- Cydraddoldeb: ymateb i alwadau am gymdeithas decach a mwy cyfartal
- Cyfansoddiad: rheoli cyfleoedd a pheryglon cysylltiadau newydd yn y DU



## Y pandemig parhaus

- Costau uniongyrchol yr ymateb
- Yr ergyd economaidd yn cael sgil-ffaith ar gyllid cyhoeddus
- Costau etifeddol effeithiau hirdymor



## Gweddnewid darpariaeth gwasanaethau

- Systemau a diwylliant i gefnogi dulliau newydd o ddarparu gwasanaethau
- Cydweithredu pwrpasol
- Cynllunio ac ymyrraeth hirdymor
- Defnyddio technoleg pan fo'n briodol
- Defnyddio data i ddysgu ar draws y system gyfan

Bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei ddiweddarau yn barhaus i sicrhau ei fod yn dal i fod yn berthnasol.

# ◀ Safbwynt Cymru

Nid yw ein strategaeth yn bodoli ar wahân i dirwedd ehangach sector cyhoeddus Cymru.

Byddwn yn edrych ar ein holl syniadau a'n penderfyniadau drwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae ein huchelgeisiau i Archwilio Cymru fod yn sefydliad enghreifftiol modern a blaengar i Gymru yn sicrhau bod ein hysgogiadau o ran gweithleoedd y dyfodol, ein gweledigaeth ddigidol, cynlluniau gweithlu ac ariannol ac uchelgeisiau sero net yn rhyng-gysylltiedig – gan greu ecosystem strategol sy'n creu synergeddau a gwerth ar draws y sefydliad a'r sector cyhoeddus ehangach.



# ◀ Sut y cyrhaeddom ni yma

Hysbyswyd datblygiad y strategaeth hon gan fwrdd, tîm arweinyddiaeth gweithredol a staff Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i brofi a mireinio ein syniadau.

Mae ein hasesiad o gynnydd yn erbyn ein pedwar uchelgais wedi nodi meysydd o gryfder a rhai yr ydym yn dymuno eu gwella.

## Manteisio i'r eithaf ar ein safbwynt unigryw, ein harbenigedd a thrylwyredd ein gwybodaeth

### Ein sefyllfa bresennol

- Rydym wedi integreiddio gwaith tîm ac allbynnau.
- Mae gennym dimau arbenigol ac arbenigedd.
- Rydym yn esblygu ein defnydd o dechnoleg.
- Rydym yn rhannu gwybodaeth.
- Mae gennym wybodaeth a dealltwriaeth ddofn.

### Y sefyllfa yr hoffem fod ynddi

- Mae gennym dimau traws-sefydliadol a sectoraidd integredig, wedi'u cefnogi gan well rheolaeth o adnoddau.
- Mae gennym staff yn gweithio ar draws amrywiaeth o brosiectau a gweithgareddau.
- Yn defnyddio technoleg i alluogi rhannu gwybodaeth a gwaith blaenorol yn ddi-dor.
- Yn gweithio yn agored gyda mwy o dryloywder ac amlygrwydd o ran ein gwaith.

## Cryfhau ein sefyllfa fel llais awdurdodol, annibynnol, yr ymddiriedir ynddo

### Ein sefyllfa bresennol

- Rydym yn llunio adroddiadau o ansawdd uchel wedi'u seilio ar dystiolaeth.
- Pan fydd ein gwaith yn taro'r nod, mae ein rhanddeiliaid yn cyfeirio ato yn fawr.
- Adeiladu ar ein cyflymder cyhoeddi i ddarparu gwaith ar 'y materion iawn ar yr adeg iawn'.
- Mae rhanddeiliaid yn priodoli gwerth i waith cenedlaethol a lleol ond mae rhai yn gwahaniaethu rhwng y ddau.
- Ymddiriedir yn ein gwaith cyrifon a chaiff ei gyflawni'n brydlon, ac ystyrir ein bod yn arbenigwyr yn y maes.

### Y sefyllfa yr hoffem fod ynddi

- Rydym yn flaenllaw o ran syniadau ac yn sylwebydd o ddewis yr ymddiriedir ynddo.
- Gallwn nodi a manteisio ar gwmpas eang o wybodaeth arbenigol ac arfer arloesol.
- Mae gennym negeseuon beiddgar ac eglur ac nid ydym yn gwingo rhag cyflwyno negeseuon anodd.
- Rydym yn sganio'r gorwel ac yn nodi pynciau sy'n dod i'r amlwg yn rhagweithiol, lle gallwn ymgysylltu gan ddefnyddio adroddiadau sydd eisoes yn bodoli neu waith sydd ar y gweill.

## Cynyddu ein hamlygrwydd, ein dylanwad a'n perthnasedd

### Ein sefyllfa bresennol

- Mae ein hymgysylltiad â chynulleidfaoedd targed yn dda ac rydym yn darparu'r hyn sydd ei angen arnynt.
- Rydym yn ceisio adborth ar ein perfformiad gyda rhanddeiliaid.
- Rydym yn rannu gwybodaeth drwyadl â rhanddeiliaid.

### Y sefyllfa yr hoffem fod ynddi

- Rydym yn rhannu ein gwybodaeth mewn digwyddiadau allanol.
- Rydym yn sganio'r gorwel ar gyfer digwyddiadau allweddol/materion sy'n dod i'r amlwg.
- Rydym yn cynyddu ein presenoldeb yn y cyfryngau.
- Rydym yn creu gwahanol allbynnau i ddiwallu anghenion gwahanol gynulleidfaoedd.



## Bod yn sefydliad enghreifftiol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

### Ein sefyllfa bresennol

- Mae gennym brosesau cryf sy'n sicrhau safon dda o lywodraethu, rheoli risg a rheoli adnoddau.
- Mae ein huwch arweinwyr yn cymryd amser i ystyried penderfyniadau cymhleth.
- Mae gennym drefniadau rheoli perfformiad sy'n esblygu.
- Rydym yn cael gwared ar rwystrau diwylliannol a strwythurol etifeddol.
- Rydym yn hybu cydraddoldeb.

### Y sefyllfa yr hoffem fod ynddi

- Datblygu ein henw da fel sefydliad modern blaengar ac arloesol.
- Ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd yr ydym yn cyflawni busnes.
- Defnyddio adnoddau i sicrhau'r ddarbodaeth, yr effeithlonrwydd a'r effeithiolrwydd mwyaf posibl, wedi'u hysbysu gan ddata a gwybodaeth reoli drylwyr a chadarn.
- Mae ein rheolwyr yn ysgogi newid, gan ddarparu arweinyddiaeth gref ac unedig ar draws y sefydliad.
- Rydym yn flaengar, gan ddatblygu sgiliau a galluoedd i ddiwallu anghenion busnes.

# ◀ Un Archwilio Cymru

Mae ein henw da a'n heffaith yn dibynnu ar ansawdd y gwaith yr ydym yn ei wneud ac mae gan bawb yn Archwilio Cymru ran i'w chwarae. Yn ganolog i lwyddiant y strategaeth hon y mae pwyslais di-ildio ar sicrhau ansawdd ein gwaith archwilio ac effeithiolrwydd ein gweithrediad mewnol yn y ffyrdd canlynol:

- Mae gennym y bobl iawn, yn gwneud y pethau iawn gyda'r sgiliau iawn.
- Rydym yn buddsoddi mewn technoleg a sgiliau.
- Mae ein staff yn eglur am ein cyfeiriad a'u swyddogaeth yn y broses o wireddu ein huchelgeisiau.
- Mae ein harweinwyr yn creu'r amodau i bobl ffynnu ac ymgysylltu.
- Mae gan ein pobl y datblygiad a'r ffyrdd o weithio gorau posibl i gyflawni gwaith archwilio o ansawdd uchel ac i dyfu yn eu swyddi.
- Mae rhyngweithio â chyflogeion yn sicrhau'r perfformiad gorau posibl yn unigol ac fel tîm.
- Rydym yn ymateb i adborth ac mae gennym ddiwylliant o welliant parhaus.
- Mae ein gweithgareddau newid wedi'u hangori mewn gwella ansawdd ac effaith.



# ◀ Yr hyn a ddywedodd ein rhanddeiliaid wrthym

## Yr hyn y gwnaethom ni ei ddweud

### Rhaglen archwilio strategol, dynamig, o ansawdd uchel

- Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno ein rhaglen mewn ffordd wahanol, gan bwysleisio ei bod yn fwy hyblyg nag yn y gorffennol.
- Ffurio grwpiau datblygu dynamig sy'n deillio o'r rhai â phrofiad a gwybodaeth.
- Mae'n ymddangos bod rhaglen amlwg o waith yn rhywbeth y 'dylid ei chael' yn hytrach na rhywbeth a fyddai'n 'braf ei chael'.

### Dull wedi'i dargedu ac effeithiol o ran cyfathrebu a dylanwadu

- Mae ceisio goleuo bylbiau a grymuso cyrff sy'n cael eu harchwilio i feddwl am atebion a'u gweithredu wrth i ni weithio yn allweddol i sicrhau effaith.
- Mae angen i ni ystyried y gwahanol gynulleidfaoedd a sicrhau bod cyfathrebu yn cyd-fynd â'u hanghenion.
- Buddsoddi mewn darganfod pwy yw ein cynulleidfaoedd, a'r hyn y maent yn dymuno ei glywed gennym.

### Diwylliant a model gweithredu sy'n caniatáu i ni ffynnu yn awr ac yn y dyfodol

- Gwneud amserlenni yn weledol. Dangos ble mae heriau yn codi a gwneud cyflymder yn flaenoriaeth.
- Mae adborth effeithiol yn sicr o gryfhau ein galluoedd arwain.

“ Mae hi mor bwysig dilyn ble mae'r arian wedi mynd a pha wahaniaeth y mae wedi ei wneud ”

## Yr hyn a ddywedodd ein rhanddeiliaid allanol

- Rwy'n hoffi'r dull thematig – canolbwyntio ar y pynciau iawn gan sicrhau canlyniadau i ddinasyddion.
- Mae hi mor bwysig dilyn ble mae'r arian wedi mynd a pha wahaniaeth y mae wedi ei wneud.
- Edrych ar sut mae sefydliadau yn gweithio gyda phobl i atal problemau cymhleth.
- Canolbwyntio ar arfer da o'r tu allan i Gymru. Mae'n amser bod yn radical.
- Gweithio ar draws seilos sectoraidd, adlewyrchu effaith cydweithredu a gwaith partneriaeth.
- Os bydd pethau yn mynd o'i le, mae angen i ni wybod.
- Sicrhau cymaint o wybodaeth â phosibl o'r rhaglen gyfrifon.
- Creu cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithredu.

# ◀ Ein pwyslais ar gyfer y bum mlynedd nesaf – themâu a chanlyniadau

Rydym wedi nodi tri maes pwyslais lle byddwn yn blaenoriaethu camau i gyflawni ein huchelgeisiau, ochr yn ochr â darparu ein cyfrifoldebau statudol craidd:

- Rhaglen archwilio strategol, dynamig, o ansawdd uchel.
- Dull wedi'i dargedu ac effeithiol o ran cyfathrebu a dylanwadu.
- Diwylliant a model gweithredu sy'n caniatáu i ni ffynnu yn awr ac yn y dyfodol.



## Rhaglen archwilio strategol, ddynameg, o ansawdd uchel



### Byddwn yn...

Sicrhau'r cydbwysedd iawn o ran bod â chronfa o brosiectau archwilio a gynlluniwyd ymlaen llaw a hyblygrwydd digonol i ymateb i feysydd o ddiddordeb sy'n codi.	Sefydlu gallu a chapasiti ymchwil a'u defnyddio i lunio ein rhaglen archwilio.	Mabwysiadu dull mwy cyfannol o gyflawni archwiliadau, sy'n manteisio ar arbenigedd a gwybodaeth o bob rhan o'r sefydliad.
Sefydlu proses drwyadl a thryloyw ar gyfer rheoli ein rhaglenni archwilio lleol a chenedlaethol.	Gwneud mwy o ddefnydd o waith blaenorol perthnasol wrth ymateb i feysydd o ddiddordeb sy'n dod i'r amlwg.	Ysgogi gwelliant parhaus i ansawdd ein gwaith drwy ddilyn yr holl safonau archwilio rhyngwladol perthnasol.

### Ein mesurau o lwyddiant

- Terfynau amser statudol: cyfran y cynhyrchion archwilio a ddarperir erbyn y terfyn amser statudol gofynnol.
- Prydlon: cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a ddarperir yn unol â'r amserlen arfaethedig i sicrhau adrodd prydlon ac effeithiol.
- Ansawdd: cyfran yr archwiliadau a adolygir a ddarperir yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol.
- Hygrededd: cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn ein bod yn gyfathrebydd annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethiant a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus.
- Darparu gwybodaeth: cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod wedi cael gwybodaeth ddefnyddiol drwy ein gwaith na fyddent wedi ei chael fel arall.
- Ysgogi gwelliant: cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn bod ein gwaith wedi arwain at welliannau i'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus.
- Arbedion a nodwyd: gwerth arbedion posibl, incwm, enillion cynhyrchiant a manteision ariannol eraill a nodwyd drwy ein gwaith.

## Dull wedi'i dargedu ac effeithiol o ran cyfathrebu a dylanwadu



### Byddwn yn...

Mabwysiadu dull ymgyrchu o gyfathrebu yn allanol, wedi'i ymgorffori o ddechrau prosiectau.	Rhoi min ar ein negeseuon a'n cyflwyniad a chryfhau ein presenoldeb digidol.	Nodi yn rhagweithiol gyfleoedd i arddangos ein gwaith ac addasu ein hallbynnau at ddibenion gwahanol yn unol â hynny.
Paratoi staff i fanteisio yn well ar gyfleoedd i dylanwadu ar amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.	Chwarae rhan fwy blaenllaw o ran llunio dyfodol archwilio cyhoeddus.	

### Ein mesurau o lwyddiant

- Cyfran y rhanddeiliaid sydd o'r farn bod ein digwyddiadau arfer da yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.
- Nifer yr ymweliadau â'n gwefan lle cyflawnir o leiaf un weithred, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo.
- Nifer yr ymgysylltiadau cyfryngau cymdeithasol, h.y. rhyngweithio â'n negeseuon fel eu hoffi, gwneud sylw, neu ail-drydar/rhannu.
- Nifer yr achosion lle'r ydym yn cyflwyno gwersi o archwiliadau i weithgorau polisi allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol.

## Diwylliant a model gweithredu sy'n caniatáu i ni ffynnu yn awr ac yn y dyfodol



### Byddwn yn...

Ymwreiddio diwylliant lle mae pawb yn teimlo bod ganddynt lais ac yn cael eu gwerthfawrogi, a lle caiff llwyddiannau eu dathlu yn eang.	Cynyddu cyfleoedd i gydweithredu, arloesi a rhannu syniadau.	Sicrhau bod ein ffyrdd o weithio yn arwain at broses o wneud penderfyniadau sy'n gyflym a thryloyw.
Datblygu ein gweithlu ar gyfer y dyfodol drwy drefniadau rheoli perfformiad a dawn ystwyth.	Cryfhau galluoedd arwain ar draws y sefydliad.	Gweithio mewn ffordd glyfar a chynaliadwy lle'r ydym yn manteisio i'r eithaf ar botensial ein pobl a'n hasedau ffisegol.

### Ein mesurau o lwyddiant

- Sgoriau ymgysylltiad staff a phrofiad cyflogaion cadarnhaol yn ein Harolwg Pobl.
- Llai o absenoldeb oherwydd salwch.
- Lefel yr amrywiant o'n hamcangyfrif.
- Gwerth arbedion cost ac effeithlonrwydd.
- Llai o allyriadau CO<sub>2</sub>.
- Hyfforddeion yn pasio eu harholiadau proffesiynol y tro cyntaf.



Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau  
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)